

CASGLIADAU GWASTRAFF Y CARTREF – CWESTIYNAU CYFFREDIN

1. Pa newidiadau sy'n digwydd i gasgliadau gwastraff ac ailgylchu?

- Bydd biniau gwastraff llai'n cael eu cyflwyno'n raddol ledled y ddinas o fis Ebrill ymlaen. Bydd yn cymryd oddeutu 3 mis i ddarparu'r holl finiau.
- Cyfyngir bob cartref i 120L fesul pythefnos o gapasiti gwastraff. Ni chaniateir unrhyw finiau sy'n gorlifo na gwastraff ochr.
- Ni chaniateir gwaredu pethau ailgylchadwy, gwastraff bwyd na gwastraff gardd yn y bin sbwriel rhagor.
- Bydd tîm ymgysylltu a gorfodi newydd ar waith i roi cyngor ac i fonitro a sicrhau bod pob preswlydd yn rhannu'r gwastraff yn gywir.

2. Pa ddeunyddiau na chaniateir rhagor yn y bin sbwriel?

- Papur
- Cardbord
- Poteli plastig
- Poteli gwydr
- Caniau, tuniau ac erisolau
- Gwastraff bwyd
- Gwastraff gardd
- Eitemau trydanol

Mae'r eitemau hyn yn hawdd iawn i'w casglu drwy'r cynllun ailgylchu ymyl y ffordd wythnosol a'r casgliadau gwastraff gardd bob pythefnos, neu yn y Ganolfan Gwastraff ac Ailgylchu (Docks Way). Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn cynnig ystod o fannau ailgylchu ledled y ddinas. Cliciwch yma i weld eich safle agosaf <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Household-Waste-Recycling-Centre/Recycling-Banks.aspx>

3. Pam fod y cynllun yn newid?

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar Gyngor Dinas Casnewydd i ailgylchu 64% o wastraff y cartref erbyn 2020 a 70% erbyn 2025. Ein cyfradd ailgylchu bresennol yw 58%, ac mae angen i ni ailgylchu mwy.

Mae cyfyngiadau casgliadau gwastraff eisoes wedi'u cyflwyno gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, gan arwain at welliannau mawr mewn cyfraddau ailgylchu.

Mae cyfraddau ailgylchu Casnewydd wedi gwella'n ddramatig dros y 15 mlynedd ddiwethaf, o 20% i 58%, ac mae Casnewydd eisoes yn un o ddinasoedd gorau'r DU o ran ailgylchu, ond mae nawr angen i ni gynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% i osgoi dirwyon ariannol trwm.

Mae gan y rhan fwyaf o breswylwyr Casnewydd fin olwynion 180 litr. Bob blwyddyn mae'r cyngor yn gwario dros £2.2m yn gwaredu sbwriel, fodd bynnag mae dadansoddiad yn dangos y gellid ailgylchu dros hanner ohono'n hawdd iawn.

Oni bai bod y Cyngor yn lleihau swm y sbwriel a gesglir o gartrefi drwy gynyddu nifer y deunyddiau ailgylchu, bydd yn cael dirwyon mawr. Rhagwelir y bydd y newidiadau'n arbed £680k y flwyddyn.

**4. Mae 6 o bobl yn byw yn fy nghartref, pa mor fawr bydd fy min?
Pa feini prawf sydd ar gyfer pobl fel fi'n cael bin mwy?**

Y capasiti arferol ar gyfer gwastraff gweddilliol fydd yn cael ei gasglu bob pythefnos yw 120 litr i gartrefi â 5 neu lai o bobl.

Ar gais, ystyrir capasiti ychwanegol ar gyfer:

- Cartrefi gyda 6 i 7 o bobl, 180 litr
- Cartrefi gyda mwy nac 8 person, 240 litr

Mae'r ffigyrau hyn ar gyfer tai unigol. Os ydych yn byw mewn fflat sy'n rhan o dŷ mwy, gall y niferoedd hyn amrywio.

Darperir biniau mwy pan all preswylwyr ddangos eu bod nhw'n ailgylchu pob deunydd sy'n gallu cael ei ailgylchu neu ei gompostio, ceir rhagor o wybodaeth yn y Polisi Casgliadau Gwastraff y Cartref ([insert link](#))

Gallwch ymgeisio am gapasiti mwy ar-lein:

<http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx>

neu drwy'r Ganolfan Gyswllt ar 01633 656 656

5. Bagiau sydd gen i ar gyfer gwastraff, nid bin olwynion

Nid oes gan ychydig iawn o gartrefi yng Nghasnewydd finiau olwynion ar gyfer sbwriel. Bydd y cartrefi hyn yn cael rhoi 2 fag allan bob pythefnos, sydd gyfwerth â'r capasiti bin olwynion newydd.

6. A fyddaf yn cael dirwy am beidio ag ailgylchu?

Bydd bob preswlydd yn cael taflen yn egluro sut i ailgylchu. Os oes angen help neu gyngor, mae gennym dîm addysg a gorfodi i helpu.

1. Bydd preswylwyr sy'n cyflwyno biniau sbwriel sy'n gorlifo neu wastraff ochr yn cael rhybudd yn eu hatgoffa nhw am y gofynion newydd.
2. Os bydd hyn yn digwydd eto, caiff rhybudd ei roi ac ni chaiff unrhyw wastraff dros ben ei gasglu.
3. Mae'n bosibl y bydd swyddog ymgysylltu yn ymweld â'r eiddo i roi cyngor wyneb yn wyneb ar sortio gwastraff yn gywir. Cyfrifoldeb y preswlydd fydd gwaredu'r gwastraff ychwanegol.
4. Pe byddai hyn yn digwydd am y drydedd gwaith, ni fydd y gwastraff ychwanegol yn cael ei gasglu a bydd y preswlydd yn cael hysbysiad statudol dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Cyfrifoldeb y preswlydd fydd gwaredu'r gwastraff ychwanegol hyn.
5. Bydd torri hysbysiad statudol yn ystod cyfnod o 12 mis yn arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig o £100.

7. Pa bŵer sydd gan y Cyngor i gyflwyno dirwyon?

Dan Adran 46 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r Polisi Casgliadau Gwastraff y Cartref [\(insert link\)](#)

8. 'Dw i ddim yn deall y newidiadau - pa help sydd ar gael?

Yn rhan o'r newid, mae tîm ymgysylltu a gorfodi wedi'i benodi i gynorthwyo preswylwyr Casnewydd gan roi cyngor ar sut i ailgylchu'n fwy effeithiol. Os oes angen apwyntiad arnoch cysylltwch â 01633 656656 neu info@newport.gov.uk a gofyn am y tîm ymgysylltu a gorfodi.

Cyn i'r newidiadau hyn ddigwydd, bydd pob preswlydd yn derbyn taflen yn egluro'r newidiadau ac yn egluro pa eitemau sy'n mynd i ble. Gallwch gael mynediad at y wybodaeth hon hefyd ar wefan y Cyngor. [\(insert link here\)](#)

9. Mae gen i ormod i'w ailgylchu – beth ddylwn i wneud?

Gall preswylwyr sydd angen cael bocsys neu fagiau ychwanegol wneud hynny yma <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx>.

Gall preswylwyr sydd angen gwaredu eitem ailgylchadwy fawr nad yw'n ffitio yn y casgliad ymyl y ffordd arferol wneud cais am gasgliad gwastraff swmpus yma <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Bulky-Item-Collection.aspx> neu fel arall ewch i'r Ganolfan Gwastraff ac Ailgylchu (Docks Way), cliciwch yma i gael gwybodaeth ar yr eitemau sy'n cael eu derbyn, y lleoliad a'r amseroedd agor <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Household-Waste-Recycling-Centre/Household-Waste-Recycling-Centre.aspx>.

10. Beth yw uchafswm nifer bob cyfleuster ailgylchu y mae modd i mi ei gael?

Gallwch wneud cais am gynwysyddion ailgylchu ychwanegol gan Wastesavers neu ar wefan y Cyngor yma <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx>.

Nid yw cartrefi'n gyfyngedig i un set o focsys/bagiau a derbynnir ceisiadau rhesymol am gynwysyddion ychwanegol.

11. A yw'n debygol y bydd lleihau maint y bin yn arwain at dipio anghyfreithlon?

Na.

Mae llawer o gynghorau eisoes wedi cyflwyno newidiadau tebyg ac nid yw ffigyrau cenedlaethol yn dangos unrhyw gydberthynas â thipio anghyfreithlon. Mae tipio'n anghyfreithlon a bydd y cyngor yn erlyn y rheiny sy'n cael eu dal yn gwaredu gwastraff fel hyn.

12. Rwyf eisoes yn ailgylchu, pam ydw i'n cael fy nghosbi?

Dengys dadansoddiad y gellid ailgylchu dros 50% o'r hyn sy'n cael eu rhoi mewn biniau sbwriel. Os yw preswylwyr eisoes yn ailgylchu'n gywir, ni fyddant yn gweld unrhyw effaith. Nid oes unrhyw newid i'r casgliadau ailgylchu.

13. Pam ddylwn i ailgylchu?

Mae ailgylchu'n arbed adnoddau naturiol cyfyngedig drwy aildddefnyddio deunyddiau, yn hytrach na gwaredu nhw; hefyd, mae ailgylchu'n arbed ynni.

Ar hyn o bryd rydym yn gwario £2.2m yn gwaredu gwastraff bob blwyddyn, a drwy ailgylchu mwy gellid lleihau'r swm hwn. Yn ogystal â hyn, os nad ydym yn ailgylchu dros 70% o'n gwastraff byddwn yn wynebu dirwy o £200 ar gyfer bob tunnell nad yw'n bwrw'r targed, sydd gyfwerth â channoedd o filoedd o bunnoedd.

I gael rhagor o wybodaeth ar beth sy'n digwydd i'ch deunyddiau ailgylchadwy ewch i:
<http://wastesavers.co.uk/at-home/where-does-my-recycling-go/>

14. A fydd digon o le yn fy min newydd?

Rwy'n ailgylchu popeth eisoes, a fydd y bin newydd yn ddigon mawr?

Ar ôl i bob eitem ailgylchadwy, gwastraff bwyd a gwastraff gardd gael eu gwahanu, bydd bin â chapasiti 120L ar sail pythefnosol yn ddigonol.

Gellid mynd ag eitemau eraill nad ydynt wedi'u casglu yn rhan o gasgliadau cartref safonol, megis plastigau caled, eitemau trydanol mawr, bocsys cardbord mawr ac eitemau mawr eraill i'w hailgylchu yn y Ganolfan Gwastraff ac Ailgylchu (Docks Way) neu gellid ei roddi i elusen leol. Mae gan y Cyngor wasanaeth casgliadau swmpus ar gyfer eitemau mawr, gallwch drefnu ar-lein neu dros y ffôn. <http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Bulky-Item-Collection.aspx>

Bydd bob deunydd ailgylchadwy yn dal i gael ei gasglu bob wythnos

Ni fydd newid i gynwysyddion ailgylchu nac amllder y casgliadau: casglu'r canlynol yn wythnosol:

- Bocs glas: papur, eitemau trydanol bychan, dillad
- Bocs gwyrdd: cardbord a gwydr
- Bag coch: caniau a phlastigau
- Cadi brown: gwastraff bwyd

Gallwch ofyn am gynwysyddion ailgylchu a biniau gwastraff gardd ychwanegol yma
<http://www.newport.gov.uk/cy/Waste-Recycling/Order-new-bags-and-bins.aspx>

15. Beth am gewynnau?

Gall y rheiny sy'n dewis defnyddio cewynnau tafladwy ac sy'n bodloni'r gofynion wneud cais am fagiâu gwastraff hylendid melyn ychwanegol, y mae modd eu gosod allan gyda'r bin sbwriel ar eu diwrnod casglu. Gwiriwch y Polisi Casgliadau Gwastraff y Cartref i gael rhagor o fanylion. **LINK NEEDED**

Byddem yn annog rhieni i ystyried cewynnau go iawn, sy'n cynnig arbedion sylweddol. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma.

<https://www.recycleforwales.org.uk/cy/lleihau/ymgyrch-cewynnau-go-iawn>

16. Pryd fydd y newidiadau'n digwydd?

Darperir y biniau newydd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Bydd y rheolau newydd yn berthnasol unwaith y byddwch yn derbyn eich bin llai.

Bydd y bin newydd yn cael ei ddarparu ar eich diwrnod casglu arferol a byddwch yn derbyn llythyr yn rhoi gwybod i chi pryd fydd hyn yn digwydd. Ar y diwrnod, bydd eich hen fin yn cael ei wagio a'r un newydd yn cael ei roi yn ei le, felly gadewch eich hen fin allan. Efallai y bydd eich bin newydd yn cael ei ddarparu cyn i'r hen un gael ei wagio a'i gasglu neu fel arall, felly arhoswch nes diwedd y dydd cyn cysylltu â ni os ydych yn meddwl bod rhywbeth o'i le.

Os nad ydych yn cyflwyno'ch hen fin i'w gasglu, bydd bin newydd a llai'n cael ei adael ar ôl a'r hen fin yn cael ei gasglu ar y casgliad nesaf.

17. Beth ydych chi'n gwneud gyda'r hen finiau mwy?

Bydd biniau a gesglir yn cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu.

18. Beth ydych chi'n ei olygu wrth ddweud bin sy'n gorlifo neu fin â gwastraff ochr gormodol?

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithredu polisi casgliadau gwastraff y cartref y gallwch ei weld yma [\(insert link\)](#). Dylai'r holl sbwriel ffitio y tu mewn i'r bin gyda'r caead ar gau. Os oes gwastraff wedi'i adael ar ben neu wrth ymyl y bin, ni chaiff ei gasglu. Bydd unrhyw wastraff nad yw'n cael ei gasglu'n cael ei adael, lle bo'n bosibl, y tu mewn i'ch bin.

Peidiwch â gwasgu gormod o sbwriel i'ch bin, oherwydd mae'n bosibl na fyddant yn cael eu gwagio'n llawn pan fyddant yn cael eu casglu.

Peidiwch â llenwi eich bin gyda deunyddiau sy'n ormodol drwm, megis rwbel neu bridd, oherwydd efallai na fyddwn yn gallu ei gasglu.

Gallwch roi sbwriel sy'n weddill allan ar eich diwrnod casglu nesaf (gan sicrhau eich bod chi'n cyflwyno bin â chaead ar gau), neu'n mynd ag ef i'r Ganolfan Gwastraff ac Ailgylchu (Docks Way).

Ni fyddwn yn gorfodi ar finiau â chaeadau wedi cau sy'n cael eu gwagio, oni bai bod y bin yn amlwg yn cynnwys deunyddiau ailgylchadwy neu eitemau na ganiateir.

19. Beth ddylwn i ei wneud os nad ydw i eisiau cadw gwastraff bwyd mewn cadid bwyd?

Cynhelir casgliadau gwastraff bwyd ar wahân bob wythnos, sy'n golygu bod y gwastraff yn cael ei gasglu'n gyflymach ac mae modd osgoi sgil-ffeithiau amhleserus, megis aroglau drwg. Gallwch gau cadid gwastraff bwyd yn dynn fel bod storio gwastraff bwyd yn fwy glân, felly anogwn pob preswlydd i ailgylchu ei fwyd.

Ni chaniateir gwastraff bwyd yn y bin sbwriel a gall hyn greu problemau o ran gwastraff gormodol, yn arwain at wastraff yn peidio â chael ei gasglu. Yn unol â'r polisi Casgliadau Gwastraff y Cartref [\(insert link\)](#), gall preswylwyr nad ydynt yn ailgylchu gwastraff bwyd gael dirwy.

20. Beth os yw rhywun arall yn rhoi sbwriel yn fy min sy'n gwneud iddo orlifo?

Rydym yn gofyn i breswylwyr adael eu biniau yn eu heiddo a'u cyflwyno nhw ar ymyl y ffordd i'w casglu erbyn 7am ar y diwrnod casglu. Cyfrifoldeb y preswlydd yw sicrhau bod y bin yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol. Hyd heddiw, nid oes unrhyw faterion perthnasol ynghylch halogi biniau y mae'r cyngor yn ymwybodol ohonynt, a chredwn fod hyn yn annhebygol o fod yn broblem i'r rhan fwyaf o breswylwyr. Fodd bynnag, bydd y tîm gorfodi'n trafod unrhyw gwynion am hyn.

21. A fyddaf yn cael gostyngiad yn y dreth gyngor?

Mae'r cyngor yn gwario llai na 1% o'i gyllideb ar wastraff a chasgliadau ailgylchu. Mae'r gwasanaeth eisoes yn costio llai nag unrhyw gyngor arall yng Nghymru. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at arbedion, ond yn bennaf yn osgoi cynyddiadau cost i'r dyfodol.

Mae angen ystyried yr arbediad hwn yn erbyn pwysau cyllidebol ychwanegol sylweddol y mae'r cyngor yn eu hwynebu mewn meysydd eraill. Yn hyn o beth, pe na fyddai'r newidiadau hyn yn cael eu gwneud, byddai angen cynyddu'r dreth gyngor ymhellach neu byddai angen gwneud arbedion eraill.

Gellir dod o hyd i'r polisi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd.

<http://www.newport.gov.uk/cy/Council-Tax-Benefits/About-council-tax.aspx>

22. Beth os nad ydw i gartref pan fydd y cyfnewid yn digwydd ac nid yw fy min allan i'w gasglu?

Ar gyfer cartrefi nad yw'r biniau wedi'u cyflwyno ar y diwrnod hwnnw, bydd bin newydd a llai yn cael ei gludo a bydd yr hen fin yn cael ei waredu ar y diwrnod casglu nesaf.

23. Alla'i gadw fy hen fin i'w storio yn fy ngardd?

Na, dim ond un bin fesul cartref sydd ar gael i bob preswlydd.